

CYFARWYDDIAETH GWASANAETHAU CYMDEITHASOL CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

TÎM COMISIYNU

Adroddiad Monitro Contractau

Enw/Cyfeiriad y darparwr: Beechlea (Abbey Ambitions), Markham, Coed Duon

Dyddiad/Amser yr ymweliad: 14 Awst 2019 (Wedi'i drefnu ymlaen llaw)

Swyddog(ion) Ymweld: Caroline Roberts, Swyddog Monitro Contractau

Yn Bresennol: Wendy Gloster, Rheolwr y Cartref

1 Cefndir

1.1 Cartref preswyl i unigolion ag anableddau dysgu yw Beechlea, sy'n eiddo i Abbey Ambitions, darparwr cofrestredig ym mwrdeistref Caerffili. Yn ddiweddar bu newid yn nhîm rheoli'r cartref a Wendy Gloster yw rheolwr y cartref erbyn hyn, yn ogystal â rheolwr y chwaer-gartref, sydd hefyd ym mwrdeistref Caerffili.

1.2 Mae Beechlea wedi'i leoli mewn stryd breswyl ym Markham ac mae'n adeilad o faint da. Mae'r cartref wedi'i gofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac mae'r cofrestriad yn cwmpasu pedwar oedolion dros 18 oed. Mae'r cofrestriad hefyd yn caniatáu llety i un person hŷn ag anabledd dysgu ac anghenion iechyd meddwl. Ar adeg yr ymweliad roedd pedwar preswlydd, y mae pob un ohonynt yn cael eu hariannu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

1.3 Cafodd Beechlea ei arolygu ddiwethaf gan AGC ym mis Mai 2019, a hwnnw oedd yr arolygiad cyntaf o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Yn ystod yr arolygiad, ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio. Fodd bynnag, gwnaeth yr arolygydd dan sylw chwe argymhelliad.

1.4 Nid yw'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cael unrhyw gwynion nac atgyfeiriadau diogelu mewn perthynas â Beechlea yn ystod y 12 mis diwethaf. Ni chodwyd unrhyw bryderon gan weithwyr proffesiynol syn ymweld â'r cartref chwaith.

1.5 Yn ystod yr ymweliad â'r cartref, cyfarfu'r Swyddog Monitro â'r Rheolwr, dau aelod o'r staff a thri phreswlydd.

1.6 Yn dibynnu ar ganfyddiadau'r adroddiad, caiff y darparwr gamau unioni a datblygiadol i'w cwblhau. Camau unioni yw'r camau hynny y mae'n rhaid eu cwblhau (yn unol â'r ddeddfwriaeth), ac argymhellion arfer da yw camau datblygiadol.

2 Argymhellion Blaenorol

2.1 Camau unioni

- 2.1.2 Cynlluniau Gwasanaeth i'w llofnodi gan breswlydd sydd â galluogrwydd a/neu gynrychiolydd (os oes un) NMS 6:6:5 Canfyddiadau – Heb ei Gyflawni.
- 2.2 Camau datblygiadol
- 2.2.1 Er mwyn helpu'r darllenwr, dylid mynegeoio ffeiliau personol. Canfyddiadau – Wedi'i Gyflawni'n Rhannol
- 3 **Canfyddiadau**
- 3.1 Dogfennaeth
- 3.1.2 Mae pedwar preswlydd yn byw yn Beechlea ar hyn o bryd, y mae pob un ohonynt yn breswylwyr Bwrdeistref Caerffili. Wrth edrych ar y ddogfennaeth, edrychwyd ar ddwy ffeil a chadarnhawyd eu bod yn lleoliadau Caerffili.
- 3.1.3 Gwelwyd bod yr holl ddogfennaeth yn cael ei storio'n ddiogel yn y swyddfa ac mewn cabinet y gellir ei gloi.
- 3.1.4 Roedd ffeiliau'r ddau breswlydd yn cynnwys ffotograffau o'r ddau unigolyn. Mae'r unigolion sy'n byw yn Beechlea wedi bod yno ers amser maith ac felly, ni welwyd asesiadau cyn derbyn yn ystod yr ymweliad hwn. Gwelwyd bod y Cynlluniau Gwasanaeth Annibynnol yn fanwl; fodd bynnag, nid oedd unrhyw dystiolaeth i ddangos bod yr unigolyn neu'r cynrychiolydd wedi cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu'r cynlluniau.
- 3.1.5 Gwelwyd Asesiadau Risg Priodol, h.y. Epilepsi, mynd i mewn i'r gegin, nofio, ymolchi/cael cawod. Rhoddir asesiadau o'r fath ar waith er mwyn helpu'r staff a'r preswlydd nad oes ganddo ddealltwriaeth o berygl o bosibl; felly, mae angen cymorth priodol. Er y gwelwyd bod rhai o'r Cynlluniau Personol ac Asesiadau Risg yn cael eu hadolygu'n fisol yn unol ag arfer da, gwelwyd bod rhai ohonynt yn hen ac felly, trafodwyd hyn â'r rheolwr.
- 3.1.6 Gwelwyd cofnodion dyddiol a thrafodwyd â'r rheolwr y dylai staff gofnodi gwybodaeth fanylach am hwyliu unigolyn gan nad oedd hyn yn gyson. Gwelwyd dyddiadau gwag hefyd ac eto, trafodwyd hyn.
- 3.1.7 Roedd cofnodion yn dangos bod staff Beechlea yn gwneud cyswllt priodol ag asiantaethau allanol er mwyn cefnogi'r preswylwyr, h.y. Nyrsys Ardal, Meddygon Teulu, Podiatreg, Gwasanaethau Cymdeithasol.
- 3.1.8 Er bod y cofnodion yn dangos y dylid rhannu gwybodaeth feddygol ag aelodau penodol o'r teulu, nid oedd cytundebau ar wahân wedi'u llofnodi er mwyn i aelodau o'r teulu gael gwybod am ddigwyddiadau. Fodd bynnag, mae gan y cartref gydberthnasau da ag aelodau teulu, a chaiff cydberthnasau eu hannog a'u cynnal.
- 3.1.9 Edrychwyd ar y siartiau hylif ac awgrymwyd y dylai'r cartref gofnodi'r targed dyddiol, yn ogystal â'r mewnbwn/allbwn dyddiol. Argymhellwyd y dylai staff gofnodi'r cam gweithredu a gymerir os na fydd yr unigolyn yn cael y mewnbwn dyddiol a gofnodwyd am gyfnod o amser.
- 3.1.10 Mae'r cartref yn defnyddio siart coluddyn dyddiol sy'n adlewyrchu Siart Ysgarthiad

Bristol. Eto, mae hyn yn rhoi trosolwg i'r staff ac yn eu cymell i gymryd camau priodol os bydd angen, h.y. cysylltu â'r meddyg teulu.

- 3.1.11 Edrychwyd ar fapiau corff ac argymhellwyd, wrth gofnodi materion sy'n peri pryder, y dylid nodi'r gwelliannau sy'n cael eu gwneud neu'r cam gweithredu sy'n cael ei gymryd os bydd materion yn dirywio ac os bydd angen ymyrraeth feddygol.
- 3.1.12 Dim ond un ffeil oedd yn cynnwys hanes bywyd a chafwyd trafodaeth â'r rheolwr mewn perthynas â'r mater hwn. Eglurodd y rheolwr fod proffiliau unigol yn cael eu cadw ar fwrdd negeseuon y swyddfa ar gyfer unrhyw staff asiantaeth.
- 3.1.13 Wrth edrych ar y ddogfennaeth, nododd y swyddog monitro gofnod "pan fyddaf yn marw" manwl. Roedd y cynllun yn fanwl iawn ac yn cynnwys tystiolaeth bod y preswlydd ac aelod o'i deulu wedi bod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau. Roedd lluniau yn helpu'r preswlydd ac roedd y ddogfennaeth yn cynnwys gwybodaeth yn ymwneud â pha fath o gerddoriaeth y byddai'n ei hoffi, y math o wasanaeth, pa drefnwyr angladdau y dylid cysylltu â nhw, ac ati. Er bod hyn yn bwnc sensitif iawn i'w drafod, mae'n dangos bod y cartref yn cefnogi'r unigolion y mae'n gofalu amdanynt ac y gwneir hyn mewn ffordd sensitif.

3.2 Y Gofal a Ddarperir

- 3.2.1 Anogir y preswylwyr i gadw mewn cysylltiad rheolaidd ag aelodau o'u teulu ac mae'r ddau yn chwarae rôl weithredol yn y broses o wneud penderfyniadau o amgylch y cartref ac amdanynt eu hunain.
- 3.2.2 Mae'r cartref yn annog y preswylwyr i rannu eu barn, eu dymuniadau a'u teimladau mewn perthynas ag unrhyw newidiadau y gallai'r staff fod yn eu hystyried.

3.3 Gweithgareddau

- 3.3.1 Anogir yr unigolion i ymgymryd â gweithgareddau y maent yn eu mwynhau. Mae un unigolyn yn mwynhau cymdeithasu a mynd allan; felly, mae'r staff yn helpu'r unigolyn ac yn mynd gydag ef ar dripiâu cymdeithasol neu wrth eistedd yn yr ardd, os yw'r tywydd yn caniatáu. Roedd unigolyn arall yn arfer mwynhau gwau; fodd bynnag, mae hyn wedi newid erbyn hyn ond mae'r staff yn ceisio ei hannog i gynnal ei diddordeb. Mae'r unigolyn hefyd yn mwynhau treulio amser yn ei hystafell, yn chwarae cardiau a gemau bwrdd. Gwelwyd bod y staff yn mynd i'w hystafell i chwarae gemau gyda hi.
- 3.3.2 Mae rhai unigolion yn siarad â'r staff am y gweithgareddau y maent yn dymuno eu gwneud; fodd bynnag, i'r rhai sydd ag anawsterau cyfathrebu, defnyddir Makaton a rhoddir dewisiadau. Dywedwyd wrth y swyddog ymweld bod rhai o'r preswylwyr yn mwynhau ymweld â'r theatr, y sinema, mynd allan am fwyd, ac ati.
- 3.3.3 Mae amserlen gweithgareddau yn y cartref mewn perthynas â gweithgareddau dyddiol arferol unigolyn, h.y. mynd i Ganolfan Ddydd, apwyntiadau meddyg teulu, ac ati. Fodd bynnag, cynhelir gweithgareddau eraill ar sail ad hoc am fod yr holl staff yn gyfrifol am sicrhau bod dewis o weithgareddau yn cael eu cynnal.

3.4 Iechyd a Diogelwch

3.4.1 Edrychwyd ar y llyfr damweiniau; fodd bynnag, ni lwyddodd y swyddog ymweld i nodi unrhyw dueddiadau ac ati oherwydd bod y wybodaeth yn cael ei chofnodi mewn ffeiliau unigol. Argymhellwyd y dylid casglu gwybodaeth o'r fath mewn un ardal ganolog er mwyn galluogi'r rheolwr a gweithwyr proffesiynol sy'n ymweld i nodi tueddiadau amser penodol.

3.4.2 Cynhaliwyd yr ymarfer tân diwethaf ym mis Awst 2019 pan oedd wyth aelod o'r staff yn bresennol. Roedd yr holl fanylion priodol wedi'u cofnodi.

3.5 Cymhorthion a Chyfarpar Symudedd

3.5.1 Mae Bath Master ar waith a chaiff ei wasanaethu unwaith y flwyddyn. Mae yna hefyd declyn codi yn y cartref a gaiff ei ddefnyddio fel arfer pan fydd unigolion yn teimlo'n anhwylyd. Gwelwyd bod y teclyn codi wedi cael ei wasanaethu'n ddiweddar a disgwylir i'r Bath Master gael ei wasanaethu ddiwedd mis Awst 2019.

3.5.2 Mae cynhalwyr traed a gwregysau diogelwch wedi'u gosod ar y cadeiriau olwyn a ddefnyddir yn y cartref, a gwelwyd cynlluniau codi a chario.

3.6 Meddyginiaeth

3.6.1 Caiff meddyginiaeth ei storio'n gywir mewn cabinet y gellir ei gloi a chaiff unrhyw gyffuriau a reolir eu cloi ddwywaith. Mae'r cartref yn cynnal archwiliad misol o'r feddyginiaeth ac ar adeg yr ymweliad monitro, nid oedd unrhyw unigolyn yn cael meddyginiaeth gudd.

3.6.2 Caiff cyffuriau a reolir eu llofnodi ddwywaith; dim ond un llofnod sydd ei angen ar bob meddyginiaeth arall.

3.7 Rheoli arian preswylwyr

3.7.1 Dywedodd y Rheolwr fod angen llofnod dau aelod o'r staff ar gyfer unrhyw arian sy'n mynd i mewn ac allan o'r cartref, a chadarnhawyd hyn gan y swyddog monitro.

3.8 Amgylchedd y Cartref

3.8.1 Mae'r cartref yn fawr ac yn groesawgar. Mae'n cynnwys cegin o faint da gydag ystafell amlbwrpas fawr.

3.8.2 Mae ardal y lolfa yn ofod agored, deniadol sy'n cynnwys sofa, bwrdd bwyd a theledu ac mae ffotograffau o'r preswylwyr wedi'u harddangos drwy'r ystafell. Mae pysgodyn gan y cartref ac mae drysau sy'n agor allan i'r ardd.

3.8.3 Mae gan bob preswlydd ei ystafell wely ei hun ac mae'r ystafelloedd wedi'u haddurno yn unol â chwaeth bersonol yr unigolyn. Mae'r ystafelloedd yn cynnwys eiddo personol megis ffotograffau teuluol ac addurniadau, gan ddarparu ardal bersonol i'r unigolion ymlacio ynddi.

3.8.4 Dywedwyd wrth y swyddog ymweld nad oedd unrhyw breswlydd yn smygu; fodd bynnag, caniateir i'r staff smygu yn ardal yr ardd yn unig.

3.8.5 Yn ystod y 12 mis diwethaf, ni wnaed unrhyw welliannau i'r cartref.

3.9 Maeth

- 3.9.1 Mae hwn yn faes y mae'r rheolwr yn dymuno ei adolygu oherwydd teimlwyd y byddai'r preswylwyr yn cael budd o ddeiet iachach a chytbwys. Mae mwy o ffrwythau wedi cael eu cyflwyno a chlywyd y staff yn gofyn i'r preswylwyr beth roeddent am ei gael i swper y noson honno.
- 3.9.2 Roedd y cartref yn ystyried gwneud nos Sadwrn yn noson tecawê ac felly gofynnwyd i'r preswylwyr beth fyddai eu dewis fwyd, gydag un yn dewis pysgod a sglodion ac un arall yn dweud y byddai'n hoffi pryd Tsieineaidd.
- 3.9.3 Yn ystod yr ymweliad roedd yn gadarnhaol gweld y rheolwr yn ymweld â'r siop leol i brynu eitem o fwyd yr oedd preswylydd am ei chael ond nad oedd ar gael yn y cartref. Dywedodd y rheolwr eto fod hyn yn faes y mae angen ymchwilio iddo, er mwyn sicrhau bod y cartref yn cadw dewis fwydydd yr unigolion sy'n byw yn yr eiddo.
- 3.9.4 Pan ofynnwyd a yw'r preswylwyr yn mwynhau helpu'r staff i baratoi bwyd, dywedwyd wrth y swyddog ymweld nad oes unrhyw ddiddordeb gan y preswylwyr. Mae rhai o'r preswylwyr yn helpu gyda'r siopa bwyd, ond nid yw rhai eraill. Eto, dywedodd y rheolwr fod hyn yn faes y mae'n bwriadu ei wella.

3.10 Sicrhau Ansawdd

- 3.10.1 Rhennir arolygon â'r preswylwyr, staff, rheolwyr a rhanddeiliaid, h.y. Canolfan Feddygol Markham, Canolfan Adnoddau Cymunedol Ystrad Mynach, Tîm Anableddau Dysgu Cymunedol yr Awdurdod Lleol. Mae'r holiaduron yn rhoi cyfle i'r derbynydd roi adborth ar ansawdd y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu i'r rhai sy'n byw yn Beechlea.
- 3.10.2 Edrychodd y swyddog monitro ar ganlyniad adroddiad Ansawdd y Gwasanaeth Ionawr 2018-Ionawr 2019, a oedd yn cofnodi canlyniadau'r arolygon a ddosbarthwyd.
- 3.10.3 Trafodwyd y maes hwn â'r Rheolwr ac awgrymwyd y dylai'r Unigolyn Cyfrifol gynnal arolygiadau rheolaidd o'r cartref ac ymgysylltu â'r preswylwyr, cynrychiolwyr, staff, comisiynwyr, ac ati.

3.11 Staffio

- 3.11.1 Nid oedd y cartref wedi defnyddio staff gofal asiantaeth yn y gorffennol; fodd bynnag, yn sgil newidiadau diweddar bu'n angenrheidiol defnyddio staff asiantaeth. Fodd bynnag, mae'r cartref yn ymdrechu i ddefnyddio'r un aelod o staff er mwyn sicrhau cysondeb.
- 3.11.2 Defnyddir amrywiaeth o ddulliau hyfforddi, e.e. e-ddysgu, ystafell ddosbarth, fferyllfa BOOTS. Ar ôl i'r staff fynychu neu gwblhau hyfforddiant, arsylwir arnynt a gofynnir iddynt am y cwrs hyfforddi. Os bydd anghenion unigolyn yn newid, e.e. datblygu diabetes, trefnir hyfforddiant priodol.
- 3.11.3 Edrychodd y swyddog monitro ar y matrices hyfforddiant a nodwyd bod angen cwrs

gloywi ar rai aelodau o'r staff mewn perthynas â hyfforddiant gorfodol. Trafodwyd hyn â'r Rheolwr.

- 3.11.4 Edrychwyd ar y matrices hyfforddiant ac roedd yn amlwg bod goruchwyliaeth yn cael ei chynnal bob deufis, gyda dyddiad arfaethedig yn cael ei gofnodi, yn ogystal â dyddiad gwirioneddol yr oruchwyliaeth. Gwelwyd bod arfarniadau wedi'u cynllunio ar gyfer yn hwyrach yn y flwyddyn.
- 3.11.5 Mae'r templed goruchwyllo yn galluogi'r ddau barti (y Rheolwr a'r Gweithiwr Cymorth) i drafod materion megis amcanion, cryfderau presennol, meysydd i'w datblygu, hyfforddiant, ac ati.
- 3.11.6 Wrth edrych ar ffeiliau dau Weithiwr Cymorth, nodwyd nad oedd rhai dogfennau wedi cael eu cadw, e.e. cofnod o'r cyfweliad, disgrifiad swydd, a dim ond un ffeil oedd yn cynnwys tystysgrif geni. Trafodwyd hyn â'r Rheolwr yn ystod yr ymweliad.
- 3.11.7 Roedd pob ffeil yn cynnwys ffotograff a dau eirida ysgrifenedig. Roedd pob ffeil yn cynnwys copïau o'r cofnodion hyfforddi perthnasol a gwiriad DBS (y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd).
- 3.11.8 Dywedodd y Rheolwr wrth y swyddog ymweld nad oes yr un aelod o'r staff yn gweithio mwy na 40 awr yr wythnos.

3.12 Cwestiynau i'r Staff

- 3.12.1 Yn ystod yr ymweliad, cafodd y Swyddog Monitro y cyfle i siarad â Gweithiwr Cymorth ac i ofyn rhai cwestiynau am y ffordd y caiff y cartref ei redeg ac a oedd ganddo unrhyw bryderon.
- 3.12.2 Roedd y Gweithiwr Cymorth wedi gweithio yn y cartref am nifer o flynyddoedd ac roedd yn wybodus am yr unigolion. Defnyddir Makaton i gyfathrebu ag un unigolyn.
- 3.12.3 Dywedwyd wrth y swyddog monitro bod y cartref yn ymlaciol a bod y staff yn teimlo eu bod yn gallu eistedd a sgwrsio â'r preswylwyr neu fynd i eistedd yn yr ardd os yw'r preswylwyr yn dymuno gwneud hynny.
- 3.12.4 Mae'r tîm rheoli yn barod i glywed awgrymiadau gan y staff a byddant yn rhoi awgrymiadau ar waith os byddant yn helpu neu'n gwella bywyd bob dydd y preswyllydd.
- 3.12.5 Dywedodd y Gweithiwr Cymorth na fyddai'n oedi cyn rhoi gwybod am arfer gwael a'i fod yn ymwybodol o'r broses Diogelu Oedolion sy'n Agored i Niwed.
- 3.12.6 Mae pob aelod o'r staff yn gallu nodi ei anghenion hyfforddi ei hun, a chynhaliwyd trafodaeth gyffredinol mewn perthynas â'r aelod o'r staff a oedd am gwblhau hyfforddiant Dementia. Roedd y Rheolwr yn fwy na pharod i helpu gyda hyn a dywedodd y byddai o fudd i'r holl staff ac unigolion sy'n byw yn y ddau gartref.

4 Cwestiynau i'r Preswylwyr

- 4.1 Yn ystod yr ymweliad, treuliodd y swyddog ymweld amser yn siarad ag un o'r preswylwyr benywaidd.

- 4.2 Eglurodd y preswlydd ei bod yn arfer mwynhau gwau a threulio amser yn ei hystafell. Mae hefyd yn mwynhau mynd i siopa ond mae angen cymorth arni i wneud hynny. Dangosodd y preswlydd yn falch yr hyn yr oedd wedi ei wau i'r swyddog monitro, a siaradodd am aelod o'i theulu sy'n ei helpu.
- 4.3 Roedd yr unigolyn hefyd yn hapus i drafod y pos chwileiriau yr oedd yn ei wneud a gwelodd y swyddog monitro fod digon o hylifau ar gael.
- 4.4 Gwelwyd aelod o'r staff yn mynd i ystafell y preswlydd yn hwyrach i chwarae gemau bwrdd.
- 4.5 Gwelwyd bod yr unigolyn wedi'i gwisgo'n briodol a'i bod yn edrych yn dda.

5 **Cyffredinol**

- 5.1 Roedd awyrgylch cynnes a hyfryd yn y cartref ac roedd yn amlwg bod gan y preswylwyr gydberthynas dda â'r tîm o staff. Gellid clywed chwerthin a chyfathrebu rhwng y staff a'r preswylwyr, a oedd yn dangos awyrgylch ymlaciol.
- 5.2 Gwelwyd bod prif ardaloedd y cartref yn lân ac yn groesawgar ac wrth gael gwahoddiad i un o'r ystafelloedd gwely, roedd yn amlwg bod y preswylwyr yn addurno ac yn llenwi eu hystafelloedd yn ôl eu chwaeth bersonol eu hunain.

6 **Camau Unioni a Datblygiadol**

6.1 **Unioni**

- 6.1.2 Dylai'r staff gael disgrifiad swydd ysgrifenedig, sy'n nodi'n glir eu cyfrifoldebau, y dyletswyddau y disgwylir iddynt eu cyflawni ar hyn o bryd a'u llinell atebolrwydd (Rheoliad 38)
- 6.1.3 Dylai'r staff gael contract cyflogaeth wedi'i lofnodi (Rheolaeth 35)
- 6.1.4 Dylai'r darparwr gofnodi dyddiad y dystysgrif DBS a chadw copi o dystysgrif geni a phasbort (os oes un) yr aelod o'r staff (Rheoliad 35)
- 6.5.1 Dylai'r cofnodion gynnwys diweddariadau o ran gwelliant/dirywiad mewn perthynas â chyfanrwydd y croen a lle y bo angen, dylid ceisio cyngor arbenigol priodol i gefnogi'r gofal (Rheoliad 21)
- 6.1.6 Dylai'r darparwr gwasanaeth sicrhau y darperir gofal a chymorth mewn ffordd sy'n diogelu, yn hyrwyddo ac yn cynnal diogelwch a llesiant yr unigolion (Rheoliad 21)
- 6.1.7 Dylid sicrhau bod yr unigolion/cynrychiolwyr yn rhan o'r gwaith o ddatblygu cynlluniau personol (Rheoliad 18)
- 6.1.8 Dylid sicrhau y caiff Aseidiadau Risg eu hadolygu a'u dogfennu'n rheolaidd (Rheoliad 16)
- 6.1.9 Dylid cofnodi Damweiniau a Digwyddiadau yn ganolog er mwyn nodi

themâu/tueddiadau

- 6.1.10 Dylai'r staff gwblhau cyrsiau gloywi hyfforddiant gorfodol (Rheoliad 80)
- 6.1.11 Dylai'r Unigolyn Cyfrifol sicrhau bod systemau ar waith i ddangos y caiff ymweliadau chwarterol eu cofnodi a'u dogfennu (Rheoliad 73)
- 6.2 Camau datblygiadol
- 6.2.1 Dylai'r siartiau hylif nodi targed dyddiol a mewnbwn/allbwn dyddiol unigolyn a chofnodi'r cam gweithredu i'w gymryd (os oes angen)
- 6.2.2 Dylid rhannu a mynegeo ffeiliau staff.
- 6.2.3 Dylai cofnodion cyfweliadau gael eu llofnodi, eu dyddio a'u cwblhau'n llawn.
- 6.2.4 Dylai adroddiadau dyddiol fod yn fwy cyson wrth gofnodi hwyliau

7 Casgliad

- 7.1 Roedd yr awyrgylch yn Beechlea yn gadarnhaol ac roedd yn braf gweld y staff yn rhyngweithio â'r preswylwyr. Roedd awyrgylch hyfryd a chynnes yn y cartref.
- 7.2 Yn ystod yr ymweliad monitro hwn, roedd yn gadarnhaol iawn canolbwyntio ar y ffordd y mae'r bobl yn byw yn y cartref, a rhoddodd hyn gipolwg ar y ffordd y mae'r preswylwyr yn treulio eu diwrnodau a'r ffordd y cânt eu cefnogi gan y staff i wneud hynny.
- 7.3 Bydd y drefn fonitro arferol yn parhau yn Beechlea a hoffai'r swyddog monitro ddiolch i bawb a gymerodd ran am eu hamser, y wybodaeth a rannwyd a'r croeso yn ystod yr ymweliad.

Awdur: Caroline Roberts

Teitl: Swyddog Monitro Contractau

Dyddiad: 20 Awst 2019

D.S. Bydd yr adroddiad hwn ar gael ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Bydd copïau caled o'r adroddiad hefyd ar gael i ddarpar breswylwyr a/neu eu teuluoedd ar gais.